

PWYLLGOR CRAFFU BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES

**(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A
MICROSOFT TEAMS)**

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Llun, 8 Ionawr 2024

Cadeirydd: Cynghorydd R.Phillips

Cynghorwyr: W.Carpenter, N.Goldup-John, J.Henton,
C.Lewis, R.Mizen, P.A.Rees, S.Renkes,
S.H.Reynolds a/ac R.W.Wood

**Aelodau
Cyfetholedig sy'n
Pleidleisio:** A. Amor a/ac M.Caddick

**Aelodau
Cyfetholedig nad
ydynt yn Pleidleisio:** R.De Benedictis

**Swyddogion sy'n
Bresennol** I.Guy, H.Lervy, C.Millis, A.Thomas,
R.Crowhurst, C.Saunders, C.Morris,
N.Blackmore, H.Jones, N.Daniel a/ac P.Chivers

**Gwahoddedigion y
Cabinet:** Cynghorwyr J.Hurley, N.Jenkins a/ac C.Phillips

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Dim

3. YMGYNGHORIAD AR GYLLIDEB 2024/25

Dyweddodd y Cadeirydd wrth yr aelodau y bydd sylwadau o'r cyfarfod yn rhan o'r ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad ar gyfer cyllideb 2024/25. Atgoffwyd yr Aelodau o'u rhwymedigaeth fel rhan o'r broses ymgynghori ar y gyllideb i gyflwyno unrhyw gynigion eraill ar gyfer arbedion cyllideb nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, fel y gall swyddogion eu hystyried cyn gynted â phosib.

Atgoffwyd yr Aelodau y dylent ystyried elfennau'r gyllideb sy'n dod o dan gylch gwaith y pwyllgor craffu hwn.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid drosolwg byr o'r broses ymgynghori. Dechreuodd ymgynghoriad y gyllideb ar 20 Rhagfyr 2023 a'r dyddiad cau fydd 10 Ionawr 2024. Ystyriwyd bod yr amserlen hon yn ddigonol i aelodau ystyried y cynigion a byddai'n rhoi digon o amser i swyddogion ystyried adborth cyn cyflwyno cynigion terfynol i'r Cabinet ym mis Mawrth 2024.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes fod gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ers nifer o fisoedd i nodi maint y bwlch cyllidebol. Canolbwyntiwyd ar sicrhau gwasanaethau a diogelu swyddi.

Rhoddodd Penaethiaid Gwasanaethau drosolwg o'r cynigion cynilo a chynhyrchu incwm a gynhwysir yn Atodiad 4 o becyn adroddiadau'r agenda.

Mewn perthynas â Pharc Gwledig Margam (ELLL1), holodd yr aelodau am oblygiadau'r golled staff a grybwyllwyd.

Cadarnhaodd swyddogion nad oedd unrhyw staff yn cael eu colli o safbwynt gweithredol gan fod y cyfeiriad yn ymwneud ag ymddeoliad hyblyg aelod o staff, a bod y trefniant hwn yn golygu y cedwir sgiliau a phrofiad.

Holodd yr aelodau ynghylch y cynigion blaenorol ar gyfer llinell sip ym Mharc Margam.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes y byddai adroddiad llawn mewn perthynas â chyfeiriad strategol Parc Margam yn y dyfodol yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Holodd yr aelodau a fyddai'r cyllid codi'r gwastad yn effeithio ar gynigion arbedion Theatr y Dywysoges Frenhinol (ELLL3).

Cadarnhaodd swyddogion nad oedd unrhyw fanylion yn hysbys ar hyn o bryd, a chynhelir cyfarfod cynllunio'n fuan a disgwylir i'r cyfnod datblygu bara oddeutu 12 mis. Byddai'r theatr ar gau am gyfnod sylweddol tra bod y gwaith yn mynd rhagddo.

Mewn perthynas â'r cynnig Hamdden Dan Do (ELLL4), holodd yr aelodau ynghylch y swm uchel o arbedion a nodwyd yn yr adroddiad a'r goblygiadau os na chaiff yr arbediad hwn ei wireddu. Holodd yr aelodau hefyd a ystyriwyd costau dibrisiant offer a digwyddiadau bydeang a allai achosi i brisiau ynni godi.

Cytunodd swyddogion fod angen monitro'r cynnig yn ofalus. Byddai'r rhan fwyaf o'r incwm yn cael ei gyflawni o ganlyniad i gostau aelodaeth ac arbedion ynni. Cydnabu'r Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes y risgiau a chadarnhaodd fod dealltwriaeth o anwadalrwydd y ffigurau y gall digwyddiadau'r byd effeithio arnynt. Mae'r ffigwr arbedion a nodir yn yr adroddiad yn dangos gostyngiad mewn diffygion gweithredu, nid elw. Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 21 o'r adroddiad a'r sôn am oedi pellach ynghylch dod â Celtic Leisure yn fewnol a'r costau cysylltiedig. Nododd yr Aelodau fod Undebau Llafur yn adrodd am ansicrwydd staff ac effaith barhaus ar forâl ac yn cwestiynu a allai morâl staff effeithio ar gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig. Mae undebau llafur wedi gofyn am weithgor i ddatblygu cynllun busnes ymarferol dros y misoedd nesaf a gofynnodd yr aelodau sut y byddai'r cyngor yn ymateb.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes y bydd cynllun busnes ar gyfer Cyfarwyddiaeth y Gwasanaeth Hamdden yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn cyn i Celtic Leisure ddod yn ôl yn fewnol. Cyfrifoldeb y Pennaeth Hamdden, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant fyddai'r Cynllun Busnes fel rhan o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Hamdden gyffredinol. Byddai unrhyw gais am weithgor yn digwydd er mwyn i Fwrdd Celtic gynnal trafodaethau ag Undebau Llafur. Mae gan Celtic Leisure gynllun busnes cyfredol a fydd yn caniatáu iddo gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd a nodir yn yr adroddiad.

Mewn perthynas â Glanhau Ysgolion Cynradd (ELLL9), cododd yr Aelodau bryder y gallai ysgolion ddewis cyflogi cwmnïau preifat na

fyddai ganddynt o bosib yr wybodaeth a'r profiad a gafwyd yn ystod y pandemig diweddar. Roedd yr aelodau hefyd yn cwstiyntu'r gwahaniaeth mewn prisiau rhwng y ddarpariaeth bresennol a chwmnïau preifat.

Nid yw swyddogion yn rhagweld y byddai ysgolion yn dewis cyflogi cwmnïau preifat gan fod gan y gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd enw da. Trefnir cyfarfod gyda'r Rheolwr Glanhau i nodi goblygiadau i ysgolion a sicrhau bod ysgolion yn cael sicrwydd y byddant yn derbyn yr un gwasanaeth o ansawdd uchel. Nododd swyddogion na allai cwmnïau preifat ddarparu'r mesurau diogelwch gofynnol sydd eu hangen ar gyfer glanhau ysgolion cyn COVID-19 ac mae'n annhebygol y byddai hyn wedi newid.

Holodd yr aelodau a fyddai ysgolion yn parhau i ddefnyddio'r gwasanaeth ond yn lleihau eu horiau glanhau.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg Hamdden a Dysgu Gydol Oes fod hyn yn bosibilrwydd, ond nododd fod angen glanhau rhai ardaloedd mewn ysgolion yn ddyddiol ac na fyddai lle i doriadau yn yr ardaloedd hyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y cynnig yn anffodus ond na ellir ei osgoi yn yr hinsawdd economaidd bresennol a gwneir pob ymdrech i ddiogelu'r gwasanaeth a'i gadw'n fewnol.

Cytunodd yr Aelodau fod gan y gwasanaeth glanhau enw da ond dywedodd fod rhai ysgolion, yn enwedig ysgolion cynradd, yn wynebu amgylchiadau ariannol heriol a gallai unrhyw ostyngiad mewn gwasanaeth gael effaith niweidiol ar gyllid ysgolion ac ar ddiogelwch plant.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd gwiriadau a monitro ar waith pe bai ysgolion yn cyflogi cwmnïau preifat i sicrhau bod ysgolion yn cael eu cynnal ar y safon ofynnol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes nad oes unrhyw weithredwyr preifat yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd. Pe bai'r sefyllfa hon yn newid, byddai'r awdurdod yn cynorthwyo ysgolion i baratoi manyleb, ond byddai'r cyfrifoldeb ar y corff llywodraethu. Cadarnhaodd swyddogion y byddai hyn yn gyfrifoldeb enfawr oherwydd ar hyn o bryd gwneir hyn gan wasanaethau glanhau sy'n cadw at yr holl reoliadau mewn perthynas â hyfforddiant/COSHH.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad pellach mewn perthynas â chynigion ELLL 11/12 a 13 a gwrthbwysio grantiau yn erbyn costau craidd. Cadarnhaodd swyddogion nad oedd unrhyw ganlyniad i'r cynigion. Mewn perthynas â chynnig y Gwasanaeth Ieuencid, cafwyd cynnydd o £10k sy'n cael ei hawlio yn erbyn y costau craidd. O ran urddas y misglwyf, mae llawer iawn o adnoddau eisoes ar gael mewn ysgolion sy'n galluogi'r costau gweinyddol i gael eu hailgyfeirio yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Byddai arbediad RCSIG yn cael ei gymryd o unrhyw danwariant.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y cynnig i gynyddu incwm dros drothwy o 7.5% ar y gwasanaeth rheoli plâu (ENV20); a holwyd sut y bu cynnydd mewn taliadau'r cyngor o'i gymharu â ffioedd cwmnïau preifat.

Nododd swyddogion ei bod yn anodd cymharu gan nad yw llawer o gwmnïau preifat yn cyhoeddi eu ffioedd, ond deallir bod ffioedd rheoli plâu Castell-nedd Port Talbot yn ffafriol o'u cymharu â'r sector preifat.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes sylw'r aelodau at gynnis cyllideb nad oedd yn dod o dan gylch gwaith y pwyllgor ond a oedd yn ymwneud â chynnal a chadw tiroedd ysgolion (ENV14).

Holodd yr Aelodau a oedd unrhyw fiwrocratiaeth ychwanegol ynghylch newidiadau i gaffael mewn perthynas â'r cynnig arbedion SCH1.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes fod biwrocratiaeth ychwanegol yn bosibilrwydd, ond os bydd ysgolion yn dilyn y cyngor a roddir, byddant yn gallu sicrhau nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd fwy effeithlon na fydd yn feichus.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl Swyddogion a'u timau am eu gwaith caled parhaus.

Ystyriodd yr Aelodau Adroddiad Ymgynghoriad ar Gyllideb 2024/25 fel y'i cyflwynwyd. Ni chyflwynwyd cynigion cyllidebol ychwanegol gan aelodau yn y cyfarfod.

Yn dilyn gwaith craffu, nododd yr Aelodau yr adroddiad.

4. **EITEMAU BRYD**

Nid oedd unrhyw eitemau bryd.

**Cynghorydd R.Phillips
CADEIRYDD**